21.05.2020

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg Press Release

Dathlu diwrnod mwyaf eu bywydau dan glo

Dychmygwch ddathlu diwrnod eich priodas, heb symud o'r ystafell fyw. Dyna oedd hanes Danny a Nia o Langefni wrth i griw Priodas Pum Mil drefnu priodas go wahanol dan glo.

Doedd cyfyngiadau cyfnod y cloi ddim yn mynd i roi stop ar Trystan ac Emma a chriw cyfres boblogaidd Priodas Pum Mil i drefnu priodas arbennig yn llawn sypreisys i'r cwpwl o Ynys Môn.

Mewn rhaglen arbennig, **Priodas Pum Mil Dan Glo** fydd i'w gweld ar S4C Nos Sul 31 Mai cawn fwynhau seremoni'r fendith briodas o fflat Danny a Nia yn Llangefni a hynny dan ofal un o ferched arbennig Sir Fôn, Elin Fflur. Bydd Trystan ac Emma yn cyflwyno'r cyfan dros zoom o'u cartrefi. Bydd hyd yn oed y gweision a'r morwynion priodas hefyd ar zoom o'u tai a bydd dros 45 o westeion priodas hefyd yn ymuno dros zoom yn eu dillad priodas gorau.

Diolch i griw arbennig o deulu a ffrindiau sydd wrthi'n brysur yn cydlynu gyda busnesau lleol, trefnu negeseuon a llunio areithiau. Ac mae nhw hyd yn oed yn llwyddo trefnu fod y wledd briodas yn cael ei goginio gan neb llai na Chris 'Foodgasm Roberts' ac mae 'na brydiau bwyd yn cael eu cludo i'r gwesteion sy'n byw yn lleol.

"Ma hi am fod yn briodas hollol wahanol!" meddai Danny y priodfab sydd wedi bod gyda Nia ers dros ddwy flynedd a hanner.

"Bydd Nia yn newid i'w ffrog yn ein ystafell wely ni, bydda i yn newid yn yr ystafell sbâr ac yna yn aros iddi yn y *lounge*. Mond Nia fi a'r plant fydd yn y fflat. Da ni'n edrych mlaen yn fawr iawn ac yn falch o gael y cyfle i fod yn rhan o rhywbeth hollol wahanol."

Mae criw Priodas Pum Mil yn benderfynol o sicrhau bod Danny a Nia yn cael diwrnod i'w gofio ac mae na sawl sypreis i'r cwpwl yn ystod y diwrnod. Gyda Nia a Danny â'u calonnau yn ddwfn yn Sir Fôn does dim syndod eu bod yn ffans o'r grŵp pop poblogaidd Y Moniars ac mae Arfon Wyn a'r grwp yn falch o allu perfformio tu allan i fflat y cwpwl.

Mae Danny a Nia hefyd yn ffans mawr o'r ffilm eiconig Grease ac mae'r criw hyd yn oed yn llwyddo i gael neges arbennig wrth y seren fyd enwog Olivia Newton John!

"Da ni wir wedi gwthio'r ffiniau hefo'r briodas yma" meddai Trystan Ellis Morris sydd wedi bod yn cyflwyno'r gyfres boblogaidd hon gydag Emma Walford ers y cychwyn.

"Mae hi'n fraint cael bod yn rhan o ddiwrnod arbennig Danny a Nia. Ond nes i ddod adre i Ddeiniolen o Lundain mewn panic cyn y *lockdown* a phacio bob math o geriach! Do'n i ddim yn gwybod ar y pryd fy mod i am fod yn brysur yn trefnu Priodas o'r tŷ!

Achos bo fi 'di bod mor brysur efo'r ffilmio yn arwain at y briodas, nes i gyrraedd wythnos y briodas a sylwi bo' gennai ddim byd call i wisgo ar gyfer y diwrnod mawr! Allai'm gwisgo jîns a t-shirt, efo baseball cap i briodas!

Felly nes i orfod ordro dillad oddi ar y we... a diolch byth, odda nhw'n ffitio! Er bo fi'n rhedeg a trio cadw'n heini yn ystod lockdown, dwi'n byta lot mwy hefyd! Roedd hi'n brofiad hollol swreal gwisgo siwt briodas a chyflwyno'r rhaglen gyfan o'r ty, heb Emma wrth fy ochr i.

...Ond dwi'n meddwl mai hon di un o'r priodasau gorau eto!"

Priodas Pum Mil Dan Glo
31 Mai, 8.00
Isdeitlau Saesneg
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C

21.05.2020

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg Press Release

Celebrating their Big Day in Lockdown

Imagine celebrating your wedding day, without moving from the living room. That was what happened to Danny and Nia of Llangefni as the Priodas Pum Mil crew arranged a very different lockdown wedding.

The lockdown restrictions were not going to stop Trystan and Emma and the crew of the popular series Priodas Pum Mil from organising a special wedding full of surprises for the couple from Anglesey.

In a special programme, Priodas Pum Mil Dan Glo which will be available on S4C Sunday 31 May, we will be able to enjoy a wedding blessing from Danny and Nia's flat in Llangefni, led by a special lady from Anglesey, Elin Fflur. Trystan and Emma will present via Zoom from their homes. Even the bridesmaids and groomsmen will appear on Zoom from their homes. Over 45 wedding guests, dressed up to the nines will also join on Zoom.

Thanks to a special bunch of family and friends who are busy co-ordinating with local businesses, arranging messages and making speeches. They even manage to arrange for the wedding feast to be cooked by the one and only Chris 'Foodgasm' Roberts and the meals are taken to guests living locally.

"It's going to be a completely different wedding!" says Danny the groom who has been with Nia for over two and a half years.

"Nia will change to her dress in our bedroom, I'll change in the spare room and then wait for her in the lounge. Only myself, Nia and the children will be in the flat. We are so excited and are pleased to have the opportunity to be part of something completely different."

The Priodas Pum Mil crew are determined to ensure that Danny and Nia have a day to remember and there are several surprises for the couple during the day. Nia and Danny's hearts lie deep in Anglesey, so it's hardly surprising that they are fans of the popular pop group The Moniars and Arfon Wyn and the group are happy to be able to perform outside the couple's flat.

Danny and Nia are also great fans of the iconic film Grease and the crew even manage to get a special message from the world-famous star Olivia Newton John!

"We really pushed the boundaries with this wedding," says Trystan Ellis Morris who has been presenting this popular series with Emma Walford from the beginning.

"It is a privilege to be part of Danny and Nia's special day. But I came home to Deiniolen from London in panic before the lockdown started and I packed all sorts of stuff! I didn't know at the time that I would be busy organising a wedding from the house!

"Because I was so busy filming leading up to the wedding, the week of the wedding arrived and I and noticed that I had nothing suitable to wear for the big day! I can't wear jeans and a T-shirt with a baseball cap to a wedding!

"So, I had to do a bit of online shopping... and thankfully everything fits! Even though I'm running and trying to keep fit during lockdown, I'm eating a lot more too! It was a very surreal experience wearing a wedding suit and presenting the entire program from the house, without Emma beside me.

... But I think this is one of the best weddings yet!"

Priodas Pum Mil Dan Glo
31 May, 8.00
English Subtitles
On Demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A Boom Cymru Production for S4C